# CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

# OFFERYN AC ERTHYGLAU LLYWODRAETHU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:** | |
| **Cymeradwywyd Gan:** | Y Bwrdd |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Bwrdd |
| **Awdur:** | Y Gorfforaeth |
| **Dyddiad Adolygu:** | Mai 2027 |

| **Cyhoeddwyd ar:** | **Gwefan (✓)** | **Mewnrwyd (✓)** | **Porth y Dysgwyr (✓)** |
|---|---|---|---|
| | ✓ | | |

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais

**Efallai na fydd y copi hwn yn gyfredol os yw wedi ei argraffu**

# OFFERYN LLYWODRAETHU

| | CYNNWYS | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Dehongliad termau | 4 |
| 2. | Cyfansoddiad y Bwrdd | 4 |
| 3. | Penderfynu ar Niferoedd Aelodaeth | 5 |
| 4. | Penodi Aelodau | 5 |
| 5. | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd | 5 |
| 6. | Penodi’r Swyddog Llywodraethu | 6 |
| 7. | Personau sy'n anghymwys i fod yn Aelodau o'r Gorfforaeth | 7 |
| 8. | Tymor Gwaith ac Ailbenodi | 8 |
| 9. | Terfynu Aelodaeth | 9 |
| 10. | Cynnal Buddiannau mewn Materion sy'n ymwneud â'r Coleg | 9 |
| 11. | Cyfarfodydd | 10 |
| 12. | Cworwm | 11 |
| 13. | Gweithrediadau | 11 |
| 14. | Mynediad at Gyfarfodydd | 13 |
| 15. | Cofnodion | 14 |
| 16. | Cyhoeddi Papurau | 14 |
| 17. | Lwfansau i Aelodau | 15 |
| 18. | Newid Enw’r Gorfforaeth | 15 |
| 19. | Diddymu'r Gorfforaeth | 15 |
| 20. | Cymhwyso'r Sêl Gorfforaethol | 15 |
| 21. | Offeryn Llywodraethu | 16 |

## Dehongliad

1. Yn yr Offeryn Llywodraethu hwn mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| *Llywodraeth Cymru* | Llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion |
| *Y Gorfforaeth* | Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent, y mae'r offeryn hwn yn gymwys iddi. |
| *Yr offeryn hwn* | Yr Offeryn Llywodraethu hwn |
| *Y Bwrdd* | Corff llywodraethu a Bwrdd Corfforaethol Coleg Gwent |
| *Materion staff* | Yn cyfeirio at benodi, taliad cydnabyddiaeth, amodau gwasanaeth, dyrchafu, ymddygiad, atal dros dro, diswyddo neu ymddeoliad unrhyw aelod o staff Coleg Gwent. |
| *Diwrnod gwaith* | O ddydd Llun i ddydd Gwener yn gynhwysol, ar wahân i wyliau banc neu wyliau cyhoeddus. |
| *Sgiliau hanfodol* | Sgiliau a phrofiad, ac eithrio cymwysterau proffesiynol, a nodir ym Manyleb Person y Gorfforaeth. |
| *Staff/Aelod Myfyriwr* | Eglurhad o’r ystyron yng Nghymal 2. |
| *Cadeirydd* | Cadeirydd y Bwrdd Corfforaethol |
| *Is-gadeirydd* | Is-gadeirydd y Bwrdd Corfforaethol |
| *Swyddog Llywodraethu* | Penodi person fel Swyddog Llywodraethu i Gorfforaeth Coleg Gwent. |
| *Y Coleg* | Y Sefydliad Addysg Bellach (a/neu ei is-gwmnïau) a elwir yn Coleg Gwent y sefydlir y Gorfforaeth i'w gynnal dan bwerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac unrhyw Ddeddfau a deddfwriaeth ddilynol. |

## Cyfansoddiad y Bwrdd

**2.** (1) Bydd y Bwrdd yn cynnwys:

- (i) y Pennaeth/Prif Weithredwr
- (ii) dau aelod o staff y coleg
- (iii) tri myfyriwr o'r coleg (un yn cynrychioli myfyrwyr Addysg Uwch)
- (iv) uchafswm o 16 aelod annibynnol i gynnwys o leiaf un aelod annibynnol o gyflogwyr lleol/diwydiant sy'n berthnasol i waith y coleg.

(2) O'r ddau aelod sy'n aelodau o staff, bydd un yn aelod o staff addysgu, wedi'i enwebu a'i ethol gan staff addysgu yn unig; a gall y llall fod yn aelod o'r staff cymorth busnes, wedi'i enwebu a'i ethol gan staff nad ydynt yn addysgu yn unig.

(3) Bydd yr aelodau sy’n fyfyrwyr yn cael eu henwebu a’u hethol gan gorff y myfyrwyr drwy broses a nodir ym Mholisi Olyniaeth Corfforaethol ac Aelodaeth.

**Penderfynu ar niferoedd aelodaeth**

**3.** (1) Bydd y Gorfforaeth yn cyhoeddi cyfansoddiad y Bwrdd a'r broses benodi ar gyfer Llywodraethwyr y coleg o fewn ei Rheolau Sefydlog.

(2) Gall y Bwrdd amrywio cyfansoddiad y Llywodraethwyr fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog ar unrhyw adeg, ar yr amod bod gofynion sylfaenol cymal 2 yn cael eu bodloni a bod dogfen wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi yn unol â 3(1).

**Penodi aelodau**

**4.** (1) Y Bwrdd sydd â'r awdurdod i benodi aelodau.

(2) Caiff y Bwrdd (fel awdurdod penodi) wrthod penodi person yn aelod os:

(a) yw wedi'i fodloni bod y person wedi'i ddiswyddo fel aelod o unrhyw gorfforaeth addysg bellach arall o fewn y deng mlynedd diwethaf; neu

(b) byddai penodi'r person hwnnw'n mynd yn groes i unrhyw reol a wnaed dan gymal 8 yr Offeryn hwn ynghylch sawl tymor caiff person wasanaethu yn eu swydd; neu

(c) nad yw'r person yn gymwys i fod yn aelod o'r Bwrdd oherwydd gofynion cymal 7 yr Offeryn hwn.

(3) Pan fydd unrhyw swydd wag i fod yn Llywodraethwr yn codi, bydd y Bwrdd (fel awdurdod penodi) yn cymryd pob cam angenrheidiol i benodi aelod newydd i lenwi'r swydd wag cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond heb fod yn hirach na chwe mis ar ôl i'r swydd wag godi.

(4) Mae pob penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd a chwblhau'r gwiriadau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

**5.** (1) Bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith ei aelodau cymwys presennol.

(2) Nid yw'r Pennaeth/Prif Weithredwr, staff ac aelodau myfyrwyr yn gymwys i gael eu penodi'n Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd, nac i weithredu fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn eu habsenoldeb.

(3) Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd, bydd yr aelodau sy'n bresennol, yn ddarostyngedig i 5(2), yn dewis rhywun o blith ei gilydd i weithredu fel Cadeirydd/Is-gadeirydd.

(4) Fel arfer, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn dal swydd am gyfnod o ddwy flynedd neu unrhyw gyfnod arall a ddiffinnir gan y Bwrdd ac a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

(5) Gall y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Llywodraethu.

(6) Os yw'r Bwrdd yn fodlon bod y Cadeirydd yn anaddas neu'n analluog i gyflawni swyddogaethau ei swydd, neu nad yw er budd gorau'r Gorfforaeth i'r Cadeirydd barhau i gyflawni swyddogaethau'r swyddfa, bydd y Bwrdd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig, yn diswyddo'r Cadeirydd a bydd y swydd yn wag.

(7) Os yw'r Bwrdd yn fodlon bod yr Is-gadeirydd yn anaddas neu'n analluog i gyflawni swyddogaethau ei swydd, neu nad yw er budd gorau'r Gorfforaeth i'r Is-gadeirydd barhau i gyflawni swyddogaethau'r swyddfa, caiff roi hysbysiad ysgrifenedig, bydd y Bwrdd yn diswyddo'r Is-gadeirydd a bydd y swydd yn wag.

(8) Bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd newydd o blith yr aelodau cymwys presennol naill ai yn y cyfarfod diwethaf cyn diwedd cyfnod swydd y Cadeirydd, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn ymddiswyddiad y Cadeirydd.

(9) Bydd y Bwrdd yn penodi Is-gadeirydd newydd o blith yr aelodau cymwys presennol naill ai yn y cyfarfod diwethaf cyn diwedd cyfnod swydd yr Is-gadeirydd, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn ymddiswyddiad yr Is-gadeirydd.

(10) Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gymwys i gael eu hailbenodi gan y Bwrdd ar ddiwedd eu tymor yn y swydd. Cyn belled â'u bod yn parhau i gael eu penodi'n Llywodraethwr yn unol â chymal 8 o'r Offeryn, gallant wasanaethu hyd at uchafswm o chwe blynedd yn y swydd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Bwrdd ymestyn penodiad y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd am uchafswm o flwyddyn ar ôl hyn.

**Penodi'r Swyddog Llywodraethu**

**6.** (1) Bydd y bwrdd yn penodi person i weithredu fel Swyddog Llywodraethu Annibynnol. Ni ellir penodi Pennaeth/Prif Weithredwr fel Swyddog Llywodraethu.

(2) Os yw'r Swyddog Llywodraethu yn absennol dros dro, bydd y Bwrdd yn penodi person i wasanaethu fel Swyddog Llywodraethu dros dro. Ni ellir penodi'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn Swyddog Llywodraethu dros dro.

(3) Cymerir bod unrhyw gyfeiriad at y Swyddog Llywodraethu yn yr Offeryn hwn a'r Erthyglau Llywodraethu yn cynnwys Swyddog Llywodraethu dros dro a benodir dan baragraff (2).

(4) Yn amodol ar gymal 13(10) mae gan y Swyddog Llywodraethu hawl i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau.

(5) Gall y Swyddog Llywodraethu fod yn aelod o staff y coleg.

**Personau nad ydynt yn gymwys i fod yn aelodau o'r Gorfforaeth**

**7.** (1) Ni chaiff unrhyw berson dan 18 oed fod yn aelod, ac eithrio fel aelod myfyriwr.

(2) Ni all y Swyddog Llywodraethu fod yn aelod.

(3) Ar wahân i'r aelodau staff etholedig a'r Pennaeth/Prif Weithredwr, ni all unrhyw aelod o staff fod yn aelod.

(4) Yn amodol ar baragraffau (6) a (7), bydd person yn cael ei anghymhwyso rhag dal, neu rhag parhau i ddal swydd fel aelod os yw'r person hwnnw wedi'i farnu'n fethdalwr neu'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad, gorchymyn cyfyngiadau methdaliad dros dro neu ymgymeriad cyfyngiadau methdaliad o fewn ystyr Deddf Ansolfedd 1986(2) (neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol), neu os yw'r person hwnnw wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr, gan gynnwys trefniant gwirfoddol unigol.

(5) Pan fo person wedi ei anghymhwyso oherwydd ei fod wedi'i farnu'n fethdalwr a/neu unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4), bydd yr anghymhwysiad hwnnw'n dod i ben:

- (a) pan fydd y person hwnnw'n cael ei ryddhau o fethdaliad, oni bai bod y gorchymyn methdaliad wedi'i ddirymu cyn hynny; neu
- (b) os caiff y gorchymyn methdaliad ei ddirymu ar ddyddiad y dirymiad hwnnw; neu
- (c) os caiff y gorchymyn cyfyngiadau methdaliad ei ddiddymu o ganlyniad i gais dan adran 375 o Ddeddf Ansolfedd 1986, ar y dyddiad a archebir felly gan y Llys; neu
- (d) os caiff y gorchymyn cyfyngiadau methdaliad dros dro ei ryddhau gan y Llys, ar ddyddiad y rhyddhad hwnnw; neu
- (e) os caiff yr ymgymeriad cyfyngiadau methdaliad ei ddirymu, ar ddyddiad y dirymiad hwnnw.

(6) Pan fo person wedi ei anghymhwyso oherwydd ei fod wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr, gan gynnwys trefniant gwirfoddol unigol, ac yna'n talu'r dyledion yn llawn, bydd yr anghymhwysiad yn dod i ben ar y dyddiad y cwblheid y taliad ac mewn unrhyw achos arall, bydd yn dod i ben pan ddaw tair blynedd i ben o'r dyddiad y daw telerau'r weithred gyfansoddiad i ben, trefniant neu drefniant gwirfoddol unigol yn cael eu cyflawni.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), caiff person ei anghymhwyso rhag dal swydd, neu barhau i ddal swydd, fel aelod os:

(a) o fewn y pum mlynedd flaenorol bod y person hwnnw wedi'i gollfarnu, boed yn y Deyrnas Unedig, neu yn rhywle arall, o unrhyw drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (p'un a yw wedi'i atal dros dro ai peidio) am gyfnod o dri mis neu fwy, heb yr opsiwn o ddirwy; neu

(b) o fewn yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r person hwnnw wedi'i gollfarnu fel y nodir yn is-baragraff (i) ac mae wedi cael dedfryd o garchar, p'un a yw wedi'i atal dros dro ai peidio, am gyfnod o fwy na dwy flynedd a hanner; neu

(c) bod y person hwnnw wedi'i gollfarnu ar unrhyw adeg fel y nodir yn is-baragraff (i) ac wedi cael dedfryd o garchar, p'un a yw wedi'i atal dros dro ai peidio, o fwy na phum mlynedd.

(8) At ddibenion y rheoliad hwn, caiff unrhyw gollfarn gan neu gerbron llys y tu allan i'r Deyrnas Unedig ei diystyru os yw'r gollfarn honno'n ymwneud ag ymddygiad na fyddai wedi bod yn drosedd pe bai wedi digwydd o fewn y Deyrnas Unedig o dan y gyfraith a oedd mewn grym ar y pryd yn y Deyrnas Unedig.

(9) Ni all unrhyw berson sy'n anghymwys i wasanaethu fel ymddiriedolwr elusen dan adrannau 178 – 184 o Ddeddf Elusennau 2011, wasanaethu fel aelod o'r Gorfforaeth.

(10) Mae'n rhaid i aelod roi gwybod i'r Swyddog Llywodraethu'n syth os ydynt yn cael eu diarddel rhag parhau i dal swydd o dan unrhyw un o'r paragraffau uchod. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n rhaid i'r aelod ymgynghori gyda'r Swyddog Llywodraethu ar y cyfle cynharaf posib.

**Tymor Gwaith ac Ailbenodi**

**8.** (1) Bydd aelod o'r Gorfforaeth yn dal ac yn gadael ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad, ond ni fydd hyd eu cyfnod yn y swydd yn fwy na thair blynedd.

(2) Ar ddiwedd pob cyfnod yn y swydd, bydd aelodau'n gymwys i gael eu hailbenodi, ond ni fydd unrhyw aelod yn gwasanaethu mwy na thri thymor yn olynol (neu naw mlynedd i gyd), a bydd gofynion cymal 4 yn gymwys i ailbenodi unrhyw aelod.

(3) Gall aelodau staff a myfyrwyr geisio cael eu hail-ethol/ailbenodi ar yr amod eu bod yn parhau i fod yn gymwys i wasanaethu yn y categori hwnnw. Ni allant wasanaethu mwy na thri thymor yn olynol.

(4) Yn ôl disgresiwn y Bwrdd ac o dan gyngor y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu, gellir ail-benodi person sydd wedi gwasanaethu fel Llywodraethwr o'r blaen drwy'r broses recriwtio gymeradwy. Os yw unigolyn wedi gwasanaethu tri thymor llawn yn y swydd, rhaid bod

cyfnod o o leiaf 3 blynedd wedi mynd heibio cyn y gellir ystyried ailbenodi.

**Terfynu aelodaeth**

**9.** (1) Gall aelod ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Llywodraethu.

(2) Gall y Bwrdd derfynu penodiad Aelod o'r Gorfforaeth, yn amodol ar ddatrysiad ysgrifenedig os yw'n fodlon ar unrhyw adeg bod yr Aelod:

a) wedi bod yn absennol o gyfarfodydd am chwe mis yn olynol heb eglurhad na chytundeb y Cadeirydd;
b) wedi ei anghymwyso yn rhinwedd y meini prawf a nodir yng nghymal 7 o'r Offeryn hwn;
c) wedi ymddwyn mewn modd a ystyrir ei fod yn torri amod difrifol o'r Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadau neu y gellir ei ystyried yn 'Gamymddwyn Difrifol'. Nodir rhestr anghyflawn o ymddygiadau o'r fath yn y Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadau.

(3) Bydd aelodau'r staff a/neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr, hefyd yn peidio â dal swydd os byddant yn cael eu diswyddo gan y coleg.

(4) Bydd aelod Myfyriwr hefyd yn peidio â dal swydd:

(i) ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd; neu
(ii) os caiff ei ddiarddel o'r coleg; neu
(iii) wrth adael y coleg.

**Cynnal buddiannau mewn materion sy'n ymwneud â'r coleg**

**10.** (1) Ni chaiff unrhyw aelod gymryd unrhyw fuddiant personol mewn unrhyw eiddo a ddelir neu a ddefnyddir at ddibenion y coleg, na dal unrhyw fuddiant personol ynddo, oni bai ei fod wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

(2) Os oes gan aelod:

(a) unrhyw fuddiant ariannol mewn:
   (i) cyflenwi gwaith neu nwyddau i'r coleg neu at ddibenion y coleg; neu
   (ii) unrhyw gontract neu gontract arfaethedig, sy'n ymwneud â'r coleg, neu
   (iii) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r coleg

neu

(b) unrhyw fuddiant arall a bennir gan y Bwrdd ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r coleg, yna rhaid i'r aelod hwnnw:

(i) ddatgelu i'r Bwrdd neu unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd, natur a graddau'r buddiant hwnnw; a

(ii) thynnu'n ôl o unrhyw ran o gyfarfod o'r Bwrdd neu ei bwyllgorau pan fo materion sy'n ymwneud â'r buddiant hwnnw i'w trafod neu bleidleisio arnynt; a

(iii) chael eu dileu o gworwm y rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod am eitem mewn perthynas â phenderfyniad nad oes ganddo hawl i bleidleisio arno.

(3) Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau o'r Gorfforaeth a bydd buddiannau o'r fath yn cael eu datgelu i'r Bwrdd. Bydd y Gofrestr Buddiannau ar gael yn gyhoeddus.

(4) Nid yw'r cymal hwn yn gymwys pan fydd y Bwrdd yn ystyried ac yn pleidleisio ar faterion sy'n ymwneud ag yswiriant aelodau yn erbyn rhwymedigaethau a ysgwyddir ganddynt sy'n deillio o'u swyddfa fel aelod o'r Bwrdd, i'r Bwrdd gael a thalu am yswiriant o'r fath.

**Cyfarfodydd**

**11.** (1) Bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith ym mhob blwyddyn academaidd, ac yn cynnal unrhyw gyfarfodydd eraill y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol. Lle bynnag y bo modd, cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd, gellir defnyddio technoleg addas i ganiatáu i aelodau gymryd rhan o bell, ar yr amod bod pob aelod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Bernir bod cyfarfod wedi'i gynnal naill ai pan fydd y grŵp mwyaf o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi'i gynnull, neu os nad oes grŵp o'r fath, lle mae Cadeirydd y cyfarfod.

(2) Bydd yr holl gyfarfodydd yn cael eu galw gan y Swyddog Llywodraethu a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cyfarfod, agenda ac unrhyw bapurau cysylltiedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

(3) Os cynigir ystyried materion sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth, amodau gwasanaeth, ymddygiad, atal dros dro, diswyddo neu ymddeoliad y Swyddog Llywodraethu, yna bydd y Cadeirydd (ac nid y Swyddog Llywodraethu) yn cyhoeddi manylion yr eitem honno ar yr agenda ac unrhyw bapurau perthnasol o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

(4) Gall y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd) alw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd, neu ar gais ysgrifenedig unrhyw bum aelod o'r Bwrdd. Os yw'r Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd) yn cyfarwyddo bod materion yn mynnu ystyriaeth frys, yna gallant gyfarwyddo y gellir galw cyfarfod gyda llai na phum niwrnod o rybudd.

(5) Os yw amgylchiadau materol sylweddol (er enghraifft, helynt sifil, y pandemig a.y.y.b.) yn ei gwneud yn amhosibl i'r Bwrdd gyfarfod naill

ai'n bersonol neu o bell am gyfnod hir, yna gellir sefydlu 'Pwyllgor Arbennig' dros dro. Fel arfer, bydd y pwyllgor hwn yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Pennaeth ac un Cadeirydd pwyllgor arall fel sydd ar gael. Bydd Cylch Gorchwyl pwyllgor o'r fath yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a bydd y defnydd parhaus o bwyllgor o'r fath yn cael ei adolygu bob 3 mis.

(6) Rhaid i bob aelod weithredu er budd gorau'r Gorfforaeth. Yn unol â hynny, mae'n rhaid i aelodau beidio â chael eu clymu gan unrhyw fandada a roddir iddynt gan unrhyw sefydliad arall, neu berson neu grwpiau o bersonau eraill.

(7) Gellir bodloni'r gofynion i gyhoeddi hysbysiad o gyfarfod a nodir ym mharagraffau (2), (3) a (4) drwy gyfathrebu electronig.

## Cworwm

**12.** (1) Er mwyn i gyfarfod o'r Bwrdd fod â chworwm, rhaid i nifer yr aelodau sy'n bresennol fod o leiaf 50% o gyfanswm nifer yr aelodau presennol cymwys fel y'u pennwyd yn unol â chymal 3. Bydd aelodau sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod o bell gyda chytundeb y Cadeirydd yn cyfrif tuag at y cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

(2) Nodir y gofynion cworwm ar gyfer pwyllgorau'r Bwrdd yn y Cylch Gorchwyl cymeradwy ar gyfer pob pwyllgor.

(3) Os yw nifer yr aelodau sy'n bresennol ar gyfer cyfarfod ddim yn ddigonol ar gyfer cworwm, ni ellir cynnal y cyfarfod ac felly ni ellir pasio unrhyw ddatrysiad na phenderfyniad.

(4) Os bydd cworwm yn dod i ben yn ystod cyfarfod, bydd y cyfarfod ffurfiol yn dod i ben ar unwaith ac ni fydd unrhyw ddatrysiad nac unrhyw benderfyniad yn cael eu penderfynu.

(5) Os na ellir cynnal cyfarfod neu os na all barhau am nad oes ganddo gworwm, bydd y Cadeirydd yn galw cyfarfod arbennig yn y dyddiad cynharaf cyfleus i fynd i'r afael â busnes sy'n weddill.

## Gweithdrefnau

**13.** (1) Bydd yr holl faterion sydd i'w penderfynu mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu pennu gan fwyafrif syml o bleidleisiau'r aelodau hynny sy'n bresennol ac sy'n gymwys i bleidleisio. Os bydd pleidleisiau'n cael eu rhannu'n gyfartal, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael y bleidlais fwrw. Bydd gan Aelodau sy'n cymryd rhan o bell hawl i bleidleisio fel pe baent yn bresennol yn gorfforol.

(2) Ni chaiff aelod bleidleisio drwy ddirprwy na thrwy bleidlais bost.

(3) Os oes angen cymeradwyaeth frys y Bwrdd ar gyfer penderfyniad ac os nad yw cyfarfod yn bosibl, gellir gwneud penderfyniad ysgrifenedig drwy e-bost. Ni fydd hyn ond yn berthnasol pan fydd y Cadeirydd yn teimlo bod y mater mor bwysig fel bod cynnwys y Bwrdd yn llawn yn hanfodol.

(4) Awdurdodir i'r Cadeirydd i weithredu ar ran y Bwrdd mewn amgylchiadau penodol fel y nodir ym Mhroffil Rôl y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Gall y Cadeirydd hefyd gymryd 'Camau Gweithredu'r Cadeirydd' os oes angen cymryd camau brys rhwng cyfarfodydd. Mewn achos o'r fath, gwneir pob ymdrech i ymgynghori gyda'r Bwrdd, neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd. Mae unrhyw gamau a gymerir gan y Cadeirydd yn hyn o beth yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd a drefnwyd a chaiff ei gofnodi yng Nghofrestr Gweithredu'r Cadeirydd a gynhelir gan y Swyddog Llywodraethu.

(5) Rhaid rhestru unrhyw eitem sydd angen penderfynu arni yn Agenda'r cyfarfod. Ni ellir aildrefnu nac amrywio unrhyw benderfyniad gan aelodau mewn cyfarfod dilynol oni bai bod ystyriaeth i ddiddymu neu amrywio'r penderfyniad wedi'i rhestru fel eitem benodol ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

(6) Rhaid i aelod o'r Bwrdd sydd hefyd yn aelod o staff y coleg, gan gynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr, dynnu'n ôl:
   (a) o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae materion staff sy'n ymwneud â'r aelod hwnnw o staff yn unig (yn hytrach na bod yn ymwneud â phob aelod o staff, neu grŵp o staff) i'w hystyried;
   (b) o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle y penderfynir ar ei (h)ailbenodiad, neu benodiad ei olynydd;
   (c) os yw'n ofynnol gan fwyafrif yr aelodau eraill sy'n bresennol, o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae materion staff sy'n ymwneud ag unrhyw aelod o staff sy'n dal swydd uwch eu hunain yn cael eu hystyried; ac
   (d) os yw'n ofynnol gan fwyafrif yr aelodau eraill sy'n bresennol, o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae trafodaethau sy'n cwmpasu cyfog neu amodau unrhyw aelodau o staff, neu bob aelod o staff, yn cael eu hystyried.

(7) Nid yw aelod myfyriwr sydd dan 18 oed yn gymwys i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf neu y byddai'r Coleg yn ymrwymo i gontract oddi tano neu'n mynd i ddyled/atebolrwydd.

(8) Ac eithrio fel y darperir ar eu cyfer gan reolau a wneir dan erthygl 10(3) o'r Erthyglau Llywodraethu sy'n ymwneud â disgyblaeth myfyrwyr, bydd aelod sy'n fyfyriwr yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod

lle mae ei (h)ymddygiad, ei atal ef/hi dros dro neu ddiarddel, neu unrhyw fyfyriwr arall, i'w ystyried.

(9) Os yw'r Bwrdd neu unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd angen trafod materion staff sy'n ymwneud ag aelod neu ddarpar aelod o staff y coleg, bydd aelod o fyfyriwr yn:

(a) peidio â chymryd rhan yn y gwaith o ystyried na thrafod y mater, a pheidio â phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater; ac

(b) os yw'n ofynnol iddynt wneud hynny gan fwyafrif o'r aelodau eraill sy'n bresennol (ac eithrio aelodau myfyrwyr), tynnu'n ôl o'r cyfarfod.

(10) Bydd y Swyddog Llywodraethu:

(a) yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae ei dâl, amodau gwasanaeth, ymddygiad, ataliad dros dro, diswyddiad neu ymddeoliad, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Llywodraethu, i'w ystyried; ac

(b) os yw'n aelod o staff y coleg, tynnu'n ôl mewn unrhyw achos lle bo'n ofynnol dan baragraff (6).

(11) Os yw'n ofynnol i'r Swyddog Llywodraethu dynnu'n ôl o gyfarfod, neu ran o gyfarfod, bydd y Bwrdd neu'r pwyllgor yn penodi person o'i blith i weithredu fel Swyddog Llywodraethu dros dro drwy gydol ei gyfnod o dynnu'n ôl. Ni ellir penodi'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn Swyddog Llywodraethu dros dro.

(12) Bydd unrhyw ddeiliad swydd hŷn yn bresennol mewn cyfarfod yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o' unrhyw gyfarfod lle bydd ei chydnabyddiaeth taliad, telerau gwasanaeth, ymddygiad, atal dros dro, diswyddo neu ymddeoliad ef/hi yn cael eu hystyried neu os gofynnir iddynt wneud hynny gan Gadeirydd y Bwrdd/pwyllgor.

## Mynediad i gyfarfodydd

**14.** (1) Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a ddylid caniatáu i berson nad yw'n aelod o'r Bwrdd neu'r Swyddog Llywodraethu fynychu unrhyw un o'i gyfarfodydd. Wrth wneud ei benderfyniad, bydd y Bwrdd yn ystyried gofynion cymal 16(2) yr Offeryn hwn.

(2) Yn amodol ar gymal 13, yn ogystal ag aelodau'r Gorfforaeth a'r Swyddog Llywodraethu, disgwylir i'r personau canlynol fynychu cyfarfodydd y Gorfforaeth neu ei phwyllgorau:

- Deiliaid Swyddi Uwch
- Aelodau'r Uwch Dîm Arwain ac unrhyw aelod arall o staff y gofynnwyd iddynt fod yn bresennol i gyfrannu at drafodaethau penodol.

(3) Rhoddir caniatâd i fwyafswm o ddau arsyllwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gael mynediad at gyfarfodydd.

**Cofnodion**

**15.** (1) Bydd cofnodion ysgrifenedig pob cyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu paratoi a byddant yn cael eu cymryd i'w cymeradwyo fel eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

(2) Nid yw'n ofynnol i gofnodion y cyfarfod diwethaf gael eu cymryd fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod arbennig. Os na wneir hynny cânt eu cymryd fel eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd nad yw'n gyfarfod arbennig.

(3) Bydd cofnodion a gymerir fel eitem ar yr agenda ac y cytunir arnynt wedyn yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod gwir a chywir.

(4) Cymerir cofnodion ar wahân o'r rhannau hynny o gyfarfodydd y bu'n ofynnol i'r Swyddog Llywodraethu dynnu'n ôl yn unol gyda chymal 13. Nid oes gan unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo dynnu'n ôl o gyfarfod weld cofnodion, neu bapurau cysylltiedig, unrhyw ran o'r cyfarfod heb gydsyniad y Cadeirydd.

(5) Bydd unrhyw benderfyniad a wneir drwy ddatrysiad ysgrifenedig yn cael ei ffeilio fel pe bai'n gyfres o gofnodion, i'w nodi fel gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf yn unig.

**Cyhoeddi papurau**

**16.** (1) Yn amodol ar baragraff (2) isod, bydd y dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y coleg neu i'w harchwilio yn y coleg ar gais yn ystod oriau gwaith arferol:

(a) Yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau;
(b) Cofnodion cymeradwy, wedi'u llofnodi, o bob cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau;
(c) Unrhyw adroddiad neu ddogfen a ystyrir mewn cyfarfod o'r fath (ac eithrio'r rhai yr ystyrir eu bod yn 'Gyfrinachol' dan Bolisi Mynediad at Wybodaeth y Gorfforaeth).

(2) Gellir eithrio'r eitemau canlynol o ofynion paragraff (1):

(a) Deunydd sy'n ymwneud â chyflogai y mae modd ei (h)adnabod neu gyflogai arfaethedig i'r coleg.
(b) Deunydd sy'n ymwneud â myfyriwr y gellir ei adnabod yn y coleg, neu ymgeisydd allai gael ei dderbyn i'r coleg.
(c) Deunydd sy'n ymwneud â'r Swyddog Llywodraethu.
(d) Gwybodaeth am unrhyw fater y mae'r Bwrdd o'r farn y dylid ymdrin ag ef yn gyfrinachol.
(e) Gwybodaeth sy'n amodol ar esemptiad dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu'r Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol.

(3) Bydd eitemau a eithrir dan 16(2)(d) yn cael eu hadolygu'n flynyddol a byddant ar gael os/pan fyddant yn peidio â chael eu dosbarthu'n gyfrinachol.

**Lwfansau i Aelodau**

**17.** (1) Gall y Gorfforaeth ad-dalu aelodau unrhyw lwfansau teithio, cynhaliaeth neu lwfansau eraill rhesymol y mae'r Bwrdd yn penderfynu arnynt.

(2) Rhaid i'r Bwrdd beidio â thalu, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Elusennau, unrhyw lwfansau sy'n talu aelodau am eu gwasanaethau fel aelod o Gorfforaeth.

**Newid enw**

**18.** Dim ond gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru y gall y Gorfforaeth newid ei henw.

**Diddymu'r Gorfforaeth**

(1) Gall y Gorfforaeth drwy benderfyniad, ddiddymu ei hun a darparu ar gyfer trosglwyddo ei hawliau a'i rhwymedigaethau eiddo. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Gorfforaeth yn cydymffurfio â gofynion 'Diddymu Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Cynigion a Chyrff Rhagnodedig) (Cymru) 2014'.

(2) Os caiff y Gorfforaeth ei diddymu, bydd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dod i ben ar ddyddiad y diddymiad. Os yw'n briodol, caiff y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, benderfynu y bydd y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf yn cael eu trin fel un flwyddyn ariannol.

**Cymhwyso'r Sêl Gorfforaethol**

**20.** Rhaid dilysu'r defnydd a wneir o Sêl Gyffredin y Gorfforaeth drwy:

(a) lofnod y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd neu aelod annibynnol arall a awdurdodwyd naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, gan y Bwrdd i weithredu at y diben hwnnw; a
(b) llofnod y Pennaeth/Prif Weithredwr (neu berson a benodir dros dro i'r rôl dan erthygl 5(7)).

**Offeryn Llywodraethu**

**21.** (1) Rhoddir copi o'r Offeryn Llywodraethu hwn i bob aelod ar adeg ei benodi.

(2) Bydd copi o'r Offeryn Llywodraethu hwn ar gael i'r cyhoedd: bydd copi ar gael i'w archwilio yn y coleg ar gais yn ystod oriau swyddfa arferol i staff a myfyrwyr y coleg a rhoddir copi yn rhad ac am ddim, neu am dâl nad yw'n fwy na'r gost o gopïo, i unrhyw un arall sy'n gofyn amdano.

(3) Caiff y Gorfforaeth, drwy benderfyniad ei haelodau, addasu neu ddisodli'r Offeryn hwn yn amodol ar ofynion statudol. Ni chaniateir diwygio'r ddogfen hon a fyddai'n arwain at newid statws elusennol y Gorfforaeth.

# Atodiad 2

# ERTHYGLAU LLYWODRAETHU


| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Dehongli termau | 17 |
| 2. | Cynnal y Coleg | 18 |
| 3. | Cyfrifoldebau'r Bwrdd | 18 |
| 4. | Dirprwyo Swyddogaethau a Phwyllgorau | 20 |
| 5. | Penodi a Hyrwyddo Deiliaid Swyddi Uwch | 21 |
| 6. | Ymddygiad Staff | 22 |
| 7. | Rhyddid Academaidd | 22 |
| 8. | Gweithdrefnau Cwyno, Atal a Disgyblu | 22 |
| 9. | Atal a diswyddo'r Swyddog Llywodraethu | 23 |
| 10. | Myfyrwyr | 23 |
| 11. | Materion Ariannol ac Archwilio | 23 |
| 12. | Archwiliad Mewnol | 24 |
| 13. | Cyfrifon Blynyddol | 24 |
| 14. | Erthyglau Llywodraethu a Gwneud Rheolau | 24 |


**Dehongliad**

**1.** (1) Yn yr Offeryn Llywodraethu hwn mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| *Yr Erthyglau hyn* | Y ddogfen Erthyglau Llywodraethu hon |
| *Llywodraeth Cymru* | Llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion. |
| *Y Gorfforaeth* | Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent, y mae'r offeryn hwn yn berthnasol iddi. |
| *Y Bwrdd* | Corff llywodraethu a Bwrdd Corfforaethol Coleg Gwent |
| *Aelodau Allanol* | aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd a benodwyd i wasanaethu ar bwyllgorau (yn unol â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor hwnnw) |
| *Materion staff* | Yn cyfeirio at benodi, taliad cydnabyddiaeth, amodau gwasanaeth, dyrchafu, ymddygiad, atal dros |

| | |
|---|---|
| | dro, diswyddo neu ymddeoliad unrhyw aelod o staff Coleg Gwent. |
| *Diwrnod gwaith* | O ddydd Llun i ddydd Gwener yn gynhwysol, ar wahân i wyliau banc neu wyliau cyhoeddus. |
| *Staff/Aelod Myfyriwr* | Cael eglurhad o'u hystyron yng Nghymal 2 yr Offeryn Llywodraethu. |
| *Cadeirydd* | Cadeirydd y Bwrdd Corfforaethol |
| *Is-gadeirydd* | Is-gadeirydd y Bwrdd Corfforaethol |
| *Swyddog Llywodraethu* | Penodi person fel Swyddog Llywodraethu i Gorfforaeth Coleg Gwent. |
| *Swydd uwch* | Swyddi'r Pennaeth/Prif Weithredwr, dau Is-bennaeth a'r Swyddog Llywodraethu. |
| *y coleg* | Y Sefydliad Addysg Bellach (a'i is-gwmnïau) a elwir yn Goleg Gwent y sefydlir y Gorfforaeth i'w gynnal dan bwerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac unrhyw Ddeddfau neu ddeddfwriaeth ddilynol. |

(2) Mae'r penawdau yn y ddogfen hon er hwylustod yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar adeiladu'r Erthyglau hyn.

**Cynnal y coleg**

**2.** Mae'r coleg i'w gynnal yn unol â darpariaethau'r Deddfau Addysg, ac unrhyw ddarpariaethau a wneir yn unol â hwy, fel y'u diffinnir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996, unrhyw Ddeddfau Addysg dilynol, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, unrhyw reoliadau, gorchmynion neu gyfarwyddiadau a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n amodol iddi, yn unol â darpariaethau'r Offeryn Llywodraethu, yr Erthyglau hyn, unrhyw reolau a wneir o dan yr Erthyglau hyn ac unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n rheoleiddio'r coleg.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd**

**3.** (1) Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

(a) benderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y coleg ac am oruchwylio ei weithgareddau;
(b) defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, solfedd a chynaliadwyedd ariannol y coleg a diogelu ei asedau;
(c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;
(d) penodi, arfarnu, atal dros dro a phenderfynu ar dâl ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
(e) diswyddo deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu (gan gynnwys pan fo diswyddo'r Swyddog Llywodraethu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o staff os

ydynt wedi'u penodi neu'n mynd i gael eu penodi'n aelod o staff);
(f) pennu fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau gwasanaeth yr holl staff eraill; a
(g) sicrhau bod trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwaith academaidd o'r coleg, gan gynnwys trefniadau ar gyfer derbyn, asesu ac arholi myfyrwyr a'r gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academaidd.
(h) Cymeradwyo benthyca gan y Coleg.

(2) Bydd y Gorfforaeth yn gwneud trefniadau ac yn cyhoeddi ar gyfer ceisio barn staff a myfyrwyr ar benderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y coleg a goruchwylio ei weithgareddau.

(3) Bydd y Gorfforaeth yn ymrwymo i ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid (y rhai sy'n derbyn addysg a hyfforddiant yn y coleg, cyflogwyr yn yr ardal a chyrff sy'n cynrychioli pobl sy'n byw yn yr ardal) ar ei darpariaeth a chynllunio'r cwricwlwm.

(4) Yn amodol ar gyfrifoldebau'r Bwrdd, bydd y Pennaeth yn gwasanaethu fel Prif Weithredwr y coleg ac mae'n gyfrifol am:
(a) wneud cynigion i'r Bwrdd ynghylch cymeriad addysgol a chenhadaeth y coleg, ac ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd;
(b) trefnu, cyfarwyddo a rheoli'r coleg ac arweinyddiaeth y staff;
(c) penodi, aseinio, graddio, arfarnu, atal dros dro a phenderfynu, o fewn y fframwaith a bennwyd gan y Bwrdd, gyflog ac amodau gwasanaeth staff heblaw uwch ddeiliaid swyddi, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
(d) diswyddo staff ar wahân i ddeiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu;
(e) penderfynu, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd, ar weithgareddau academaidd y Coleg, a phenderfynu ar ei weithgareddau eraill;
(f) paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant i'w hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd, a rheoli cyllidebau ac adnoddau o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y Bwrdd; a
(g) chynnal disgyblaeth myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer yn yr Erthyglau hyn, atal neu ddiarddel myfyrwyr am resymau disgyblu a gweithredu penderfyniadau i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd.

**Dirprwyo Swyddogaethau a Phwyllgorau**

**4.** (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r erthygl hon, gall y Bwrdd sefydlu pwyllgor o'r Bwrdd at unrhyw ddiben neu swyddogaeth, ac eithrio'r swyddogaethau hynny a ddyrennir mewn mannau eraill i'r Pennaeth/Prif Weithredwr, caiff y Bwrdd ddirprwyo pwerau i:

(a) un o bwyllgorau'r Bwrdd;
(b) y Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd); neu
(c) y Pennaeth/Prif Weithredwr.

(2) Bydd nifer aelodau unrhyw bwyllgor a sefydlir dan yr erthygl hon, a'r telerau y maent i ddal a gadael eu swydd arnynt, yn cael eu pennu gan y Bwrdd.

(3) Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl, gan nodi cylch gwaith, gweithdrefnau a phwerau dirprwyedig pob un o'i bwyllgorau. Bydd y Cylch Gorchwyl hwn ar gael i'r cyhoedd.

(4) Bydd y Bwrdd yn sefydlu Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu i roi cyngor ar:

(a) benodi aelodau'r Bwrdd;
(b) penodi Aelodau Allanol;
(c) unrhyw faterion sy'n ymwneud ag aelodaeth neu faterion llywodraethu y mae'r Bwrdd yn eu cyfarwyddo.

(5) Bydd y Bwrdd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â threfniadau archwilio a rheolaethau mewnol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r Bwrdd, ac eithrio'r staff ac aelodau myfyrwyr a'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Ni chaiff Cadeirydd y Gorfforaeth fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Bydd aelodaeth y pwyllgor hefyd yn cynnwys o leiaf un Aelod Allanol.

(6) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn gweithredu yn unol ag unrhyw ofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru.

(7) Gall unrhyw bwyllgor a sefydlwyd gan y Bwrdd (ar wahân i’r pwyllgorau hynny a sefydlwyd mewn perthynas â materion cwyno, disgyblu neu ddiswyddo fel y'u nodir mewn polisïau sy'n ofynnol o dan Erthygl 8), gynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

(8) Rhaid i'r Bwrdd beidio â dirprwyo'r cyfrifoldebau canlynol:

(a) Penderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y coleg a goruchwylio ei weithgareddau.
(b) Cymeradwyo'r amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant.
(c) Cyfrifoldeb am sicrhau bod adnoddau, solfedd a chynaliadwyedd ariannol y coleg a'r Bwrdd yn cael eu

defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon a diogelu eu hasedau.

(d) Penodi'r Pennaeth a deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu.

(e) Cyfrifoldeb am glywed yr apêl yn erbyn diswyddo'r Pennaeth neu ddeiliaid swyddi uwch, gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu (pan fo'r Swyddog Llywodraethu yn aelod o staff ac yn destun diswyddiad yn rhinwedd ei swydd fel aelod o staff).

(f) Addasu neu ddirymu'r Offeryn a'r Erthyglau.

(9) Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ynghylch personau nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor.

(10) Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi ar gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd pwyllgor.

(11) Gall y Pennaeth/Prif Weithredwr ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau, ac eithrio rheoli cyllideb ac adnoddau, i aelodau priodol eraill o staff. Bydd dirprwyaethau o'r fath a'u graddau yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd.

**Penodi a hyrwyddo deiliaid swyddi uwch**

**5.** (1) Bydd pob aelod o staff y coleg, gan gynnwys y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth (lle mae un wedi'i ddynodi), Is-benaethiaid a'r Swyddog Llywodraeth, yn gweithredu o dan gytundeb gwaith gyda'r Gorfforaeth neu lle mae'n berthnasol gyda'i his-gwmnïau.

(2) Os daw swydd uwch yn wag, bydd y Bwrdd yn hysbysebu'r swydd wag drwy amrywiaeth o sianeli recriwtio priodol.

(3) Wrth recriwtio uwch ddeiliad swydd, bydd y Bwrdd yn penodi panel dethol fel a ganlyn:

(a) **Recriwtio'r Pennaeth/Prif Weithredwr** – o leiaf pum aelod annibynnol o'r Bwrdd, i gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

(b) **Recriwtio unrhyw ddeiliad swydd uwch arall** – y Pennaeth/Prif Weithredwr, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac un aelod annibynnol arall o'r Bwrdd.

(4) Bydd y panel dethol yn:

a) penderfynu ar y trefniadau ar gyfer dewis ymgeiswyr i'w cyfweld;
b) cyfweld â'r ymgeiswyr hynny a ddewiswyd; a
c) gwneud argymhelliad penodi i'r Bwrdd.

(5) Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r argymhelliad, penodir yr ymgeisydd a argymhellir gan y panel dethol, yn amodol ar y gwiriadau a'r tystlythyrau arferol.

(6) Os nad yw'r panel dethol yn gallu cytuno ar argymhelliad i'w benodi, neu os nad yw'r Bwrdd yn cymeradwyo ei argymhelliad, gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol i'r panel dethol ailadrodd y camau a nodir ym mharagraff (4), gyda neu heb ail-hysbysebu'r swydd wag yn gyntaf.

(7) Gall aelod o staff gael ei benodi dros dro gan y Bwrdd i weithredu fel uwch ddeiliad swydd neu fel Pennaeth/Prif Weithredwr os bydd swydd wag neu absenoldeb dros dro. Bydd gan aelod o staff a benodir felly holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd y maent yn gwasanaethu ynddynt dros dro. Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Offeryn Llywodraethu neu yn yr Erthyglau hyn at y Pennaeth/Prif Weithredwr neu ddeiliad y swydd uwch, yn cynnwys person a benodir yn unol â'r paragraff hwn.

**Ymddygiad Staff**

**6.** Ar ôl ymgynghori'n briodol, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo polisïau sy'n ymwneud ag ymddygiad a disgyblaeth staff.

**Rhyddid Academaidd**

**7.** Wrth gymeradwyo polisïau o dan erthygl 6, bydd y Bwrdd yn ystyried yr angen i sicrhau bod gan staff academaidd a gyflogir gan y coleg ryddid o fewn y gyfraith, i gwestiynu a phrofi doethineb confensiynol ac i gyflwyno barn newydd, ddadleuol neu amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi nac unrhyw freintiau y maent yn eu mwynhau fel aelod o staff  Er gwaethaf y gofyniad hwn, bydd yn ofynnol i'r holl staff gyflawni eu rôl mewn ffordd sy'n adlewyrchu Gwerthoedd Craidd ac Ymddygiad coleg Gwent y cytunwyd arno ac sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol Staff cymeradwy.

**Gweithdrefnau cwyno, atal a disgyblu**

**8.** (1) (1) Wedi ymgynghori'n briodol gyda'r staff, bydd y Gorfforaeth yn gwneud rheolau sy'n nodi:
(a) gweithdrefnau cwyno ar gyfer yr holl staff;
(b) gweithdrefnau ar gyfer atal pob aelod o staff dros dro; a

(c) gweithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer:
    (i) deiliaid swyddi uwch, a
    (ii) staff heblaw am ddeiliaid swyddi uwch

a bydd gweithdrefnau o'r fath yn amodol ar ddarpariaethau Erthyglau 3(1)(e), 3(1)(f) & 5(1)

(2) Bydd unrhyw reolau a wneir dan baragraff 1 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflawni'r holl brosesau ymchwilio ac apelio mewn modd amserol.

**Atal a diswyddo'r Swyddog Llywodraethu**

**9.** Yn achos Swyddog Llywodraethu sydd hefyd yn aelod o staff, ni fydd gofynion polisïau a gymeradwywyd o dan Erthygl 8 yn rhagfarnu hawl y Bwrdd i gymryd camau mewn perthynas ag atal neu derfynu penodiad yr unigolyn dan gymal 6 o'r Offeryn Llywodraethu yn unol ag unrhyw gytundeb ar wahân sy'n ymwneud â'i benodi'n Swyddog Llywodraethu.

**Myfyrwyr**

**10.** (1) Bydd unrhyw Undeb Myfyrwyr yn cynnal ac yn rheoli ei faterion a'i gronfeydd ei hun yn unol â chyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd a bydd yn cyflwyno cyfrifon archwiliedig yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio i'w hadolygu.

(2) Ni ellir diwygio nac aildrefnu cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr, yn rhannol nac yn gyfan gwbl, heb gymeradwyaeth y Bwrdd.

(3) Ar ôl ymgynghori â rheolwyr a chynrychiolwyr y corff myfyrwyr, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo rheolau sy'n ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer atal a gwahardd.

**Materion Ariannol ac Archwilio**

**11.** (1) Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi ar gyfer penderfynu ar y ffioedd dysgu a ffioedd eraill sy'n daladwy i'r Gorfforaeth (yn amodol ar unrhyw delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill a wneir gan Lywodraeth Cymru neu gyrff eraill).

(2) Bydd y Bwrdd yn cydweithredu ag unrhyw berson(au) a awdurdodir gan Lywodraeth Cymru neu gyrff ariannu eraill i archwilio enillion a bydd yn caniatáu i unrhyw berson(au) o'r fath weld unrhyw ddogfennau neu gofnodion a gedwir gan y Sefydliad, gan gynnwys cofnodion a gedwir yn electronig.

**Archwiliad Mewnol**

**12.** (1) Bydd y Bwrdd yn penodi archwilwyr mewnol i archwilio a gwerthuso ar ei ran systemau rheolaeth ariannol fewnol i sicrhau bod systemau o'r fath yn hyrwyddo defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r Gorfforaeth.

(2) Ni all y personau hynny a benodir yn archwilwyr mewnol o dan baragraff 1 hefyd weithredu fel archwilwyr allanol dan erthygl 13.

**Cyfrifon Blynyddol**

**13.** (1) Bydd y Gorfforaeth yn cadw cofnodion cyfrifyddu cywir ac yn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi cyfrif gwir a theg ac yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

(2) Bydd y Bwrdd yn penodi archwilwyr allanol i archwilio'r cofnodion cyfrifyddu a'r datganiadau ariannol. Ni all y personau hynny a benodir yn archwilwyr allanol hefyd weithredu fel archwilwyr mewnol dan erthygl 12.

(3) Bydd penodi archwilwyr a chynnal gwaith archwilio yn cael ei wneud yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

**Erthyglau Llywodraethu a gwneud rheolau**

**14.** (1) Caiff y Bwrdd, drwy benderfyniad ei aelodau, yn amodol ar ofynion statudol, addasu neu ddisodli'r Erthyglau hyn. Ni chaniateir diwygio'r ddogfen hon mewn modd a fyddai'n arwain at newid statws elusennol y Gorfforaeth.

(2) Mae gan y Bwrdd y pŵer i wneud unrhyw reolau sy'n briodol yn ei farn ef, o ran materion sy'n ymwneud â llywodraeth a chynnal y coleg. Mae rheolau o'r fath yn amodol ar ddarpariaethau'r Offeryn Llywodraethu a'r Erthyglau hyn ac i'w nodi yn y Rheolau Sefydlog.

(3) Bydd copi o'r Erthyglau Llywodraethu hyn ar gael i'r cyhoedd: bydd copi ar gael i'w archwilio yn y coleg ar gais, yn ystod oriau

swyddfa arferol i staff a myfyrwyr y coleg a rhoddir copi yn rhad ac am ddim, neu am dâl nad yw'n fwy na'r gost o gopïo, i unrhyw un arall sy'n gofyn amdano.